

FFURFLEN ADRODDIAD BLYNYDDOL YR ARHOLWR ALLANOL

Mae canllawiau ar gael i'ch helpu i gwblhau'r Adroddiad hwn yn:
<http://learning.caerdydd.ac.uk/quality/review/external-examiners/reports/>.

	I'w lenwi gan yr Arholwr Allanol:		
Enw'r Arholwr Allanol:	Robert Rhys		
Sefydliad Cartref / Cyflogwr yr Arholwr Allanol:	Prifysgol Abertawe		
Y Rhaglen a / neu'r Pynciau sy'n cael sylw yn yr Adroddiad hwn	BA Cymraeg		
Y Flwyddyn Academaidd / Cyfnod sy'n cael sylw yn yr Adroddiad hwn:	2015-16	Dyddiad yr Adroddiad:	17 Awst 2016

Gofynnir i'r Arholwr Allanol ateb yn y manau a ddarperir. Gallwch ymestyn y manau hynny os bydd angen. **Sylwch y caiff y Ffurflen hon ei chyhoeddi ar-lein, ac ni ddylai gyfeirio at unrhyw fyfyrwr unigol nac aelodau o staff.**

1. Strwythur y Rhaglen

Yn fy marn i mae'r rhaglen yn un gynhwysawr, amrywiol a heriol. Defnyddir adnoddau ac arbenigedd staffio Ysgol y Gymraeg yn greadigol ac yn effeithiol i gynnig arlwy deniadol ac uchelgeisiol i'r myfyrwyr.

Mae'n arlwy sy'n adlewyrchu'r ehangu a fu ar y pwnc yn ystod y blynyddoedd diwethaf, fel a fynegir hefyd yn y datganiad meincnod newydd. Yn sicr mae'n gydlynol a chyfoes ac yn llwyddo i gynnwys meysydd traddodiadol y radd yn ogystal â mentro i diroedd newydd. Er na welais arlwy Lefel 6 i gyd eleni, cefais gyfle i weld rhestr modiwlau 2014-15 er mwyn cael y darlun llawn. Eleni gwelais enghreifftiau o waith clodwiw mewn meysydd mor amrywiol â Sgriptio, Dafydd ap Gwilym, Cynllunio Ieithyddol a Pholisi Iaith, Cyfieithu Proffesiynol a Barddoniaeth er 1990.

Gwedd drawiadol ar y ddarpariaeth, ac un a wnaeth argraff arbennig arnaf, yw'r modd y llwyddir i hyfforddi myfyrwyr o ran sgiliau cyfathrebu a dadansoddi a sgiliau ymchwil hefyd. Mae strwythur y rhaglen yn agor mwy nag un llwybr y gall myfyrwyr eu dilyn i gyfeiriadau academaidd a galwedigaethol. Cyflawnir cryn gamp wrth wneud hyn gyda'r fath ddychymyg a'r fath drylwyredd. Elfennau pwysig yn y fframwaith sy'n galluogi'r Ysgol i gyflawni hyn gyda'r fath raen yw'r deilliannau dysgu a nodir ar gyfer pob modiwl ynghyd â'r rhestr ystyrion a roddir o fedrau academaidd a medrau cyflogadwyedd a feithrinir yn ystod y modiwl.

2. Safonau Academaidd

Gallaf dystio bod safonau academaidd Ysgol Y Gymraeg yn gwbl gadarn a dilys. Fel yr awgrymwyd uchod mae'r cynllun gradd yn cyflawni'r hyn a ddisgwylir gan y datganiadau meincnod diweddaraf ar gyfer y Gymraeg. Cynhyrchir graddedigion rhugl, gwybodus a deallus. Yn fy marn i mae diwylliant asesu Ysgol y Gymraeg yn un sy'n cynnal y safonau academaidd uchaf yn y maes ac yn sicr ni ellid cyhuddo'r Ysgol o farcio'n rhy hael nac o 'chwyddo' marciau.

3. Y Broses Asesu

Darperir meini prawf eglur iawn i'r myfyrwyr; mae'r marcio yn digwydd yn gyson yn erbyn y rheiny a chan esbonio a chyfiawnhau'r marc yn yr adborth trwyadl a roddir. Mae'r adborth hefyd yn gosod targedau ystyrlon ar gyfer cynnydd pellach mewn modd adeiladol ac anogaethol. Defnyddir amrywiaeth pwrpasol o elfennau a dulliau asesu o fewn y modiwlau unigol.

Sylwais fod parodrwydd i ddefnyddio rychwant llawn y marciau posibl, heb betruso ynghylch defnyddio marciau yn y 40au a'r 80 au. Rhoddir marciau o fwy nag 80 am waith rhagorol, a gwneir hynny'n gyson ac yn ddilys.

Cefais gyfle yn y Bwrdd Arholi i drafod y canrannau a dderbyniodd farciau 2.1 a dosbarth cyntaf ar draws y modiwlau. Doedd y patrwm eleni ddim yn unffurf, gyda chlwstwr o farciau rhwng 65 a 70 mewn ambell fodiwl, a bwlch amlycach rhwng y ddau ddosbarth mewn modiwlau eraill. Mewn trafodaeth fuddiol yn y Bwrdd Arholi cynigiwyd rhesymau teg dros yr amrywiaeth a gafwyd. A gan mai dyma fy mlwyddyn gyntaf fel arholwr annoeth fyddai dyfarnu a yw hyn yn batrwm arwyddocaol ai peidio ar sail un set o ganlyniadau.

4. Sylwadau o Flwyddyn i Flwyddyn

Darllenais sylwadau fy rhagflaenydd, yr Athro Dafydd Johnston. Mae fy ymateb cyffredinol i yn gyson â'r hyn a geir yn ei adroddiad ef. Nododd ef gryfderau y sylwais i arnynt, e.e. y modiwlau ymchwil sy'n cynnig hyfforddiant gwerthfawr ac yn cynhyrchu gwaith o ansawdd uchel yn Lefel 6/Blwyddyn 3.

5. Gweithgarwch Paratoi / Ymsefydlu (i Arholwyr Allanol newydd yn unig)

Ni fynychais unrhyw gyrsiau paratoi/ymsefydlu, ond cefais bob cymorth a chydweithrediad ar hyd y flwyddyn gan swyddfa Ysgol y Gymraeg .

6. Ymarfer Nodedig a'i Wella

Nodwyd enghreifftiau o ymarfer da o dan [1] a [3] uchod. Dylid crybwyll hefyd y modiwlau iaith gwahaniaethol ar sail cefndir ieithyddol ym Mlwyddyn 2 .

7. Sylwadau ynghylch Asesu Traethodau Hir Gradd Athro (Arholwyr Allanol ar gyfer Rhaglenni Athro ôl-raddedig yn unig, gweler hefyd 9.23-9.29 isod).

8. Trosolwg o'r Penodiad (i Arholwyr Allanol sy'n ymddeol yn unig)

9. Rhestr Wirio'r Adroddiad Blynyddol

Dylech gynnwys sylwadau priodol yn Adrannau 1-8 uchod ar gyfer unrhyw ateb 'x'.

		✓	x	Amherthnasol
Gwybodaeth am y Rhaglen/Cwrs				
9.1	A gawsoch ddigon o wybodaeth am gynnwys, deilliannau dysgu ac asesiadau'r Rhaglen?	✓		
9.2	A gawsoch gais i roi'ch sylwadau ar unrhyw newid i'r asesu ar y Rhaglen?			✓
Papurau Arholiad Drafft				
9.3	A ofynnwyd i chi gymeradwyo'r holl bapurau arholiad a oedd yn cyfrannu at y dyfarniad terfynol?	✓		
9.4	A oedd natur, rychwant a lefel y cwestiynau'n briodol?	✓		
9.5	A wnaed trefniadau addas i ystyried eich sylwadau?	✓		
Marcio'r Sgriptiau Arholiad				
9.6	A gawsoch ddigon o sgriptiau i allu asesu a oedd y marcio mewnol a'r dosbarthu ar y marciau yn briodol ac yn gyson?	✓		
9.7	A oedd safon gyffredinol a chysondeb y marcio yn briodol?	✓		

		✓	x	Amherthnasol
9.8	A farciwyd y sgrïptiau mewn ffordd a oedd yn eich galluogi i weld y rhesymau dros ddyfarnu'r marciau a roddwyd?	✓		
9.9	A oeddech yn fodlon ar safon a chysondeb y marcio gan yr arholwyr mewnol?	✓		
9.10	Yn eich barn chi, a gawsoch gyfle i astudio croestoriad digonol o'r gwaith a wnaed gan yr ymgeiswyr a oedd yn cyfrannu at yr asesiad terfynol?	✓		
Gwaith Cwrs ac Aseidiadau Ymarferol				
9.11	A oedd y dewis o waith cwrs a/neu aseidiadau ymarferol yn briodol?	✓		
9.12	A gawsoch weld sampl briodol o'r gwaith cwrs a/neu aseidiadau ymarferol?	✓		
9.13	A oedd dull yr asesu, a'i safon gyffredinol, yn briodol?	✓		
9.14	A gaiff y myfyrwyr ddigon o adborth ar eu gwaith asesedig?	✓		
Archwiliadau Clinigol (os yn gymwys)				
9.15	A wnaed trefniadau boddhaol i gynnal aseidiadau clinigol?			✓
Samplu Gwaith				

		✓	x	Amherthnasol
9.16	A gawsoch ddigon o amser i ystyried samplau o'r gwaith asesedig?	✓		
Cyfarfod y Bwrdd Arholi				
9.17	A oeddech yn gallu dod i gyfarfod y Bwrdd Arholi?	✓		
9.18	A gafodd y Bwrdd Arholi ei gynnal yn briodol, yn unol â'r gweithdrefnau sefydledig ac mewn ffordd a oedd yn eich bodloni chi?	✓		
9.19	Mae Prifysgol Caerdydd yn cydnabod cyfraniad cynhyrchiol yr Arholwyr Allanol at y broses asesu ac yn enwedig at waith y Bwrdd Arholi. A gawsoch ddigon o gyfle i drafod y Rhaglen, ac unrhyw bryderon na chawsant eu datrys, gyda'r Bwrdd Arholi neu ei swyddogion?	✓		
Cyfarfod y Cyd-Fwrdd Arholi (os yn gymwys)				
9.20	A aethoch i gyfarfod Cyd-Fwrdd Arholi (h.y. un a gafodd ei gynnull i ystyried dyfarnu graddau Cydanrhydedd)?	✓		
9.21	Os do, a gawsoch wybod am y gweithdrefnau a'r confensiynau ar gyfer dyfarnu graddau Cydanrhydedd?	✓		
9.22	A gynhaliwyd y Cyd-Fwrdd Arholi yn unol â'i reolau?	✓		
Asesu Traethodau Hir Gradd Athro (os yn berthnasol)				
9.23	A gawsoch ddigon o sgriptiau i allu asesu a oedd y marcio mewnol a'r dosbarthu ar y marciau yn briodol ac yn gyson?	✓		
9.24	A oedd y sampl yn cyd-fynd â chanllawiau samplu'r Brifysgol?	✓		

		✓	✗	Amherthnasol
9.25	A oeddech yn fodlon ar safon a chysondeb marcio'r Arholwyr Mewnol?	✓		
9.26	A oeddech yn gallu mynd i Fwrdd Arholi Cam (Traethawd Hir) y Radd Athro?			✓
9.27	Os felly, a gynhaliwyd y Bwrdd Arholi'n briodol ac yn unol â gweithdrefnau sefydledig?			
9.28	A ddefnyddiwyd y cynlluniau ar gyfer marcio a dosbarthu yn gywir?			
9.29	A oedd safonau'r dyfarniadau a argymhellwyd yn briodol?			

Dylech ddychwelyd yr Adroddiad hwn, mewn fformat Microsoft Word yn ddelfrydol, drwy ebost i:

ExternalExaminers@caerdydd.ac.uk

Dylech anfon eich ffurflen hawlio ffioedd a threuliau yn electronig i'r cyfeiriad ebost uchod neu ar ffurf copi caled i'r cyfeiriad isod:

Arholwyr Allanol, Y Gofrestrfa a Gwasanaethau Academaidd, Prifysgol Caerdydd, Tŷ McKenzie, 30-36 Heol Casnewydd, Caerdydd, CF24 0DE

SAMPLU TRAETHODAU HIR RHAGLEN ATHRO GAN ARHOLWYR ALLANOL

Disgwylir i Arholwyr Allanol weld nifer rhagnodedig ac amrywiaeth o draethodau hir, ond nid i'w marcio, ar y sail ganlynol:

Rhaid i Arholwr/Arholwyr Allanol weld o leiaf 10% o'r traethodau hir ar gyfer Rhaglen Athro ôl-raddedig a addysgir, neu isafswm o 10 (pa un bynnag sydd uchaf). Os oes llai na 10 traethawd hir, rhaid i'r Arholwr/Arholwyr Allanol weld pob un ohonynt #.

Dylai'r traethodau hir sy'n cael eu gweld gan Arholwyr Allanol gynnwys enghreifftiau o'r ystod gyfan o lwyddiant (h.y. Pasio gyda Rhagoriaeth, Pasio, Methu).

Bydd Arholwyr Allanol yn cadw'r hawl i weld traethodau hir eraill ar hap.

Os penodir mwy nag un un Arholwr Allanol ar gyfer Rhaglen, dylai'r Arholwyr Allanol weld o leiaf 10% o'r traethodau hir, neu isafswm o 10 (pa un bynnag sydd uchaf) ar y cyd.